**CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD AR Y 20fed o FAI,2024 YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, LLANDDOGED.**

1.1..**CROESO**
Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cygor cymuned i'r cyfarfod

**1.2 PRESENNOL**
Cyng. Hefin Martin (Cadeirydd), Cyng Nerys Dobson, , Cyng. Arwel L. Jones, Cyng. Anwen Jones
Cyng. John Owen, Cyng. Eifion Williams Delyth Algieri (clerc).
**CYNGHORWYR SIR**
Cyng. Nia Owen, Cyng Aaron Wynne

**1.3YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Dylan Jones, Cyng. Alun Morris

**2. CADARNHAU'R COFNODION BLWYDDYN DIWETHAF**
Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 22ain, Mai, 2023.

**3. PENODI CADEIRYDD**
Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo i benodi Cyng Hefin Martin yn Gadeirydd am y flwyddyn 20244/25.
Diolchodd y Cyng. Hefin Martin i Cyng Alun Morris am ei wasanaeth dros y cyfnod yn y gadair.

**4.PENODI IS-GADEIRYDD**
Pasiwyd aelodau'r Cyngor drwy godi eu dwylo i benodi Cyng. Nerys Dobson yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

**5.PENODI IS BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS**
Pasiwyd a chytunwyd i'r canlynol barhau ar yr Is-bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus :- Cyng Alun Morris, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. John Owen, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Anwen Jones.

**6. CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR CYMUNED A'R CYFARFODYDD A PHWYLLGORAU LLYWODRAETHWYR YSGOL GYNRADD LLANDDOGED**
Cadarnhawyd Cyng. Anwen Jones ei bod yn fodlon i barhau i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar bwyllgorau'r Corff Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanddoged.

**7.COD YMDDYGIAD**
Cadarnhaodd aelodau'r Cyngor y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n safonau cywir o ymddygiad a ddisgwylir gan gynghorwyr ac aelodau i gyd yn cytuno i gydymffurfio a'r Cod fel unigolyn.

**8.COFRESTR BUDDIANNAU**
Cwblhawyd aelodau'r Cyngor y Gofrestr Buddiannau am y flwyddyn 2024/25.

**9.LWFANSAU AELODAU**
Derbyniwyd taflen wedi ei llofnodi gan oll o'r Cynghorwyr yn nodi nad ydynt am dderbyn costau na thaliadau yn rhinwedd ei swyddi.

Arwyddwyd ..................................... (Cadeirydd) Dyddiad ..................................